# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH**

Dyddiad ac Amser

**2.00 y.h., DYDD MAWRTH, 16EG TACHWEDD, 2021**

Lleoliad

**Zoom**

*** NODER ***

**Cysylltwch am fynediad i'r cyhoedd**

Pwynt Cyswllt

**Natalie Lloyd Jones**

**NatalieLloydJones@Gwynedd.Llyw.Cymru**

**01286 679780**

(Dosbarthwyd Dydd Llun, 8 Tachwedd 2021)

# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH

## AELODAETH (15)

## Plaid Cymru (8)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Annwen Daniels | Annwen Hughes |
| Linda Ann Jones | Olaf Cai Larsen |
| Judith Mary Humphreys | Edgar Wyn Owen |
| Mair Rowlands | Gwynfor Owen |

## Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Anne Lloyd Jones | Dewi Wyn Roberts |
| Hefin Underwood | Eryl Jones-Williams |

## Llais Gwynedd (1)

Y Cynghorydd Anwen J. Davies

## Annibynnol Unedig Gwynedd (1)

Y Cynghorydd Dewi Owen

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N

**1. YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

I nodi unrhyw eitemau sydd yn fater o frys yn nhyb y cadeirydd er mwyn eu hystyried.

**4. COFNODION** 4 - 8

Bydd y Cadeirydd yn cynnig fod cofnodion y cyfarfod diwethaf o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 26eg Mehefin, 2021 yn cael eu harwyddo fel rhai cywir.

**5. FFRAMWAITH CYFARFODYDD** 9 - 14

Cyflwyno Fframwaith Gweithredu Pwyllgorau drafft er mwyn ei argymell i'r Cyngor llawn ei fabwysiadu

**6. ETHOLIADAU MAI 2022** 15 - 20

Cyflwyno diweddariad ar y gwaith paratoi ar gyfer Etholiad Llywodraeth Leol, Mai 2022

**7. DATGANIAD AMRYWIAETH CYNGOR GWYNEDD** 21 - 27

Cyflwyno Rhaglen waith ddrafft yn amlinellu'r camau er mwyn gwireddu Datganiad Amrywiaeth Cyngor Gwynedd, a'i argymell i'w fabwysiadu gan y Cyngor Llawn

**8. ADRODDIAD DDRAFFT PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL** 28 - 31

I dderbyn sylwadau Aelodau ar yr adroddiad ddrafft.

**9. HOLIADUR BODLONRWYDD AELODAU** 32 - 33

Rhannu ymatebion a dderbyniwyd i'r Holiadur am Fodlonrwydd Aelodau i'r Tîm Gwasanaethau Democratiaeth.

# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH
# DYDD IAU, 29 MEHEFIN 2021

**Yn Bresennol:**

**Cynghorwyr:**

Anne Lloyd Jones (Cadeirydd), Annwen Davies, Anwen Hughes, Judith Humphreys, Eryl Jones-Williams, Cai Larsen, Edgar Wyn Owen, Robert Dewi Owen, Dewi Wyn Roberts, Dylan Bullard.

**Swyddogion:** Geraint Owen (Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol), Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol), Vera Jones (Rheolwr Gwasanaethau Democratiaeth ac Iaith), Annes Sion (Arweinydd Tîm Democratiaeth) Sioned Mai Jones a Natalie Lloyd Jones (Swyddogion Gwasanaethau Democratiaeth).

Croesawyd Y Cynghorydd Dylan Bullard i'r Pwyllgor.

## 1. ETHOL IS-GADEIRYDD

Etholwyd Y Cynghorydd Dewi Owen fel Is-gadeirydd am y flwyddyn 2021/22.

## 2. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Y Cynghorwyr: Annwen Daniels, Mair Rowlands, Linda Ann Jones.

## 3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 4. MATERION BRYS

Nid oedd Materion Brys.

## 5. COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion cyfarfod y pwyllgor blaenorol ar y 18 Chwefror 2021 yn gywir.

Gofynnodd y Cadeirydd a oedd dyddiadau wedi eu pennu ar gyfer y Fforymau Ardal, gyda'r Rheolwr Democratiaeth ac Iaith yn nodi nad oedd trefniadau pendant hyd yn hyn ond y bydd diweddariad mor fuan ag sy'n bosib.

## 6. ADRODDIAD HOLIADUR BODLONRWYDD

**PENDERFYNWYD:**

**Derbyn yr adroddiad**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Arweinydd Tîm Democratiaeth. Eglurodd bod yr holiadur bodlonrwydd wedi ei hanfon at aelodau ym mis Ebrill a rhoddwyd tan fis Mehefin iddynt ymateb. Eglurwyd bod amryw o gwestiynau yn yr holiadur o ran gwaith y tîm, datblygiadau i'r dyfodol, barn aelodau ar drefniadau pwyllgorau'r dyfodol. Derbyniwyd 38 ymateb, sef dros hanner yr aelodau.

Nodwyd bod aelodau yn hapus gyda'r gwasanaeth gyda 92% yn nodi Da neu Da Iawn fel ymateb.

Derbyniwyd sylwadau am y gwasanaeth ac awgrymiadau o ran datblygiadau fel a ganlyn:

- Sylwadau ynghylch y drefn gyda'r Cabinet, fodd bynnag nodwyd mai'r drefn statudol yw hon.
- Gofynnwyd am fwy o sesiynau hyfforddiant rheoli amser felly anfonwyd y sylw yma ymlaen at y tîm Dysgu a Datblygu.
- Codwyd pryder bod anhawster cysylltu gyda rhai swyddogion drwy e-byst.
- Cafwyd syniadau i ehangu'r sesiynau rhithiol dros baned sydd eisoes yn cael eu cynnal i ferched.
- Gofynnwyd am hyfforddiant pellach ar Sesiynau Teams a Zoom.
- Mewn perthynas â phwyllgorau'r dyfodol nododd 84% eu bod yn awyddus i sicrhau fod modd cynnal bwyllgorau cyfunol (hybrid) gyda'r tîm yn nodi eu bod yn edrych ar ddatrysiadau posib cyn bwrw ymlaen i dreialu opsiynau.
- Ategwyd bod angen offer a deunyddiau newydd yn y siambrau i alluogi hyn.

Yn ystod y drafodaeth cododd y sylwadau canlynol:

- Gofynnwyd beth fyddai'n digwydd efo'r hen drefn cynadledda fideo
- Holwyd a oes cynlluniau i gael barn y rhai na lenwodd yr holiadur.
- Mynegwyd teimlad bod pwyllgorau rhithiol yn dda o ran arbed teithio a chostau, fodd bynnag nododd sawl aelod eu bod yn colli dod i bwyllgor arferol.
- Holwyd a fydd yn bosib adolygu unrhyw newidiadau ar ôl yr etholiad yn 2022 i weld beth fydd barn ymgeiswyr newydd.
- Diolchwyd am yr adroddiad

Mewn ymateb nododd y Rheolwr Gwasanaethau Democratiaeth ac Iaith:

- Bydd y ddarpariaeth hybrid yn galluogi i bobl ymuno o siambr neu o bell o'u cartref.
- Ategodd Arweinydd Tîm Democratiaeth bod modd danfon e-bost i'r aelodau sydd heb ymateb i'r holiadur er mwyn derbyn eu barn am sefyllfa pwyllgorau i'r dyfodol.
- Yn ôl y Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, mae'n rhaid cynnig dewis i aelodau i ymuno yn rhithiol .

## 7. PARATOI AT ETHOLIADAU 2022

**PENDERFYNWYD:**

a) **Derbyn yr adroddiad**
b) **Cymeradwyo'r rhaglen waith cyffredinol**

Cyflwynwyd papur gan Reolwr Gwasanaethau Democratiaeth ac Iaith yn trafod y prif faterion dan sylw wrth baratoi ar gyfer etholiadau 2022 gan fod rhaid cychwyn gweithredu arnynt mor fuan ag sy'n bosib.

Trafodwyd yn fanwl y prif elfennau gan gynnwys:

Paratoi:

- Amlinellwyd y materion sy'n cael sylw, gan gynnwys sicrhau gwybodaeth lawn i ddarpar ymgeiswyr
- Soniwyd am y prosiect sydd dan arweiniad y tîm Etholiadau sy'n benodol yn ymwneud ag ysgolion ac ysgogi pobl ifanc i gymryd rhan mewn etholiadau, ac felly'n sicrhau amrywiaeth mewn democratiaeth.
- Nodwyd bydd gwybodaeth yn cael ei rannu cyn gynted ag sy'n bosib ynglŷn ag wardiau etholiadol.
- Trafodwyd y syniad o greu llawlyfr gyda'r brif wybodaeth ar gyfer cynghorwyr newydd.

Darpariaeth technoleg:

- Eglurwyd wrth yr aelodau y bydd cynnig iddynt o wahanol fathau o ddarpariaeth yn 2022, sef darpariaeth eu hunain, neu ddewis o wahanol ddyfeisiau gan y Cyngor.
- Ar yr un trywydd, soniwyd am y gefnogaeth a hyfforddiant fydd ar gael yn ogystal â phecyn gwybodaeth ar gyfer 2022 ar gyfer cynghorwyr newydd a rhai sydd yn dychwelyd.

Trefniadau diwrnod etholiad a'r diwrnod cyfrif:

- Trafodwyd y drefn cyhoeddi canlyniadau gan nodi bod y gwasanaeth wedi derbyn canmoliaeth am y cynlluniau yn ystod yr etholiad diwethaf.

Anwytho a rhaglen hyfforddiant:

- Eglurwyd y bydd dyddiau croeso ar gyfer aelodau newydd a rhai fydd yn dychwelyd gyda sesiynau yn cychwyn yn sydyn ar ôl y canlyniadau.
- Oherwydd cyfyngiadau sy'n bodoli yn bresennol, nodwyd bod angen cynllunio ar gyfer cael aelodau i'r siambr a sicrhau iechyd a diogelwch wrth wneud hyn.
- Fel rhan o'r rhaglen hyfforddiant newydd bydd rhaid sicrhau hyfforddiant i Gadeiryddion i ymdopi â chyfarfodydd rhithiol a hybrid.

Yn ystod y drafodaeth cododd y sylwadau canlynol:

- Holwyd a fydd dychwelyd i gyfrif ar y noson.
- Mynegwyd pryder nad oes gwybodaeth hyd hyn ynghylch wardiau etholiadol a bod hyn yn annheg i ddarpar ymgeiswyr.
- Holwyd faint o gynghorwyr sydd wedi ymddiswyddo a pham er mwyn gweld pa rwystrau sy'n bodoli i fod yn gynghorydd.
- O ran y ddarpariaeth T.G mynegodd aelod y byddai'n haws i gael cymorth T.G petai yr un ddyfais gan bawb.

Mewn ymateb i'r sylwadau:

- Eglurwyd na fydd newid I'r drefn gyfredol ar gyfer cyfri pleidleisiau ac mai trafod cyhoeddi'r wybodaeth yn unig oedd y Rheolwr Gwasanaethau Democratiaeth ac Iaith.
- Nodwyd bod gwaith ymchwil yn digwydd yn y cefndir er mwyn dadansoddi rhesymau cynghorwyr dros ymddiswyddo

## 8. AMRYWIAETH MEWN DEMOCRATIAETH

**PENDERFYNWYD:**

**Derbyn yr adroddiad.**

Cafwyd rhagair gan Bennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol yn nodi bod cais gan Lywodraeth Cymru i bob awdurdod wneud datganiad ynghylch eu hymrwymiad tuag at sicrhau amrywiaeth mewn democratiaeth. Ategodd bod y Cyngor yn bwriadu cyflwyno'r datganiad ym Mis Hydref ynghyd a'r rhaglen waith fel bod amser i ymgynghori gydag aelodau a swyddogion.

Ar gynffon hyn, nododd Rheolwr Gwasanaethau Democratiaeth ac Iaith bod cynllun drafft yn cael ei lunio a rhai camau bellach wedi eu cymryd.

Yn ystod y drafodaeth cododd y sylwadau isod:

- Nodwyd mai trigolion Gwynedd sy'n ethol yr ymgeiswyr ac felly dim ond annog amrywiaeth all y Cyngor ei wneud. Ategwyd ei fod allan o ddwylo'r Cyngor pwy sy'n cael eu hethol yn y diwedd gan fod yr etholaeth yn dueddol i ethol y person ac nid eu cefndir neu ryw.
- Ategwyd ei fod yn bwysig bod y Cyngor yn cefnogi pwy bynnag sy'n bwriadu sefyll fel ymgeisydd.

Mewn ymateb nododd y Rheolwr Gwasanaethau Democratiaeth ac Iaith:

- Bod gan y cyngor rôl sef creu amgylchedd i ganiatáu i unrhyw un sefyll fel ymgeisydd. Ar ben hyn, ategwyd bod angen sicrhau bod yr amgylchedd yn un gynhwysol fel gallai bobl o bob math o gefndiroedd neu ryw sefyll fel ymgeisydd.

## 9. MYNEDIAD I'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD:**

**Derbyn yr adroddiad a'r trefniadau dros dro.**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Bennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol yn egluro'r trefniadau ar gyfer mynediad y cyhoedd at gyfarfodydd rhithiol. Atgoffwyd y Pwyllgor bod hawliau'r cyhoedd wedi eu rhwystro am gyfnod ar ddechrau'r argyfwng covid er mwyn galluogi cynnal cyfarfodydd rhithiol. Ategwyd bod y rheoliadau yma wedi dod i ben ym mis Mai 2021 a bod newidiadau yn sgil hyn sef;

- Bod hawl statudol i aelodau a chyfranwyr eraill i fynychu cyfarfodydd yn rhithiol
- Galluogi i'r cyhoedd fynychu cyfarfodydd rhithiol

Ymhelaethodd y Rheolwr Gwasanaethau Democratiaeth ac Iaith ar hyn drwy nodi bod trefniadau ar y gweill i geisio galluogi cynnal cyfarfodydd hybrid fel bod posibilrwydd mynychu cyfarfod o bell. Ategwyd bod cryn dipyn o waith paratoi ei angen a bydd yn rhaid treialu'n rheolaidd.

Yn ystod y drafodaeth cododd y sylwadau canlynol:

- Diolchwyd am eglurhad o'r sefyllfa anodd iawn sydd ar gyfarfodydd oherwydd y cyfyngiadau presennol
- Mynegwyd barn nad yw'n ddigonol bod y cyhoedd yn cael gwylio gwe ddarllediad yn unig a'i bod yn gwneud gwahaniaeth i'r cyhoedd fod yn yr un ystafell er mwyn teimlo fel rhan o benderfyniad. Ategwyd os yw'n fater sy'n effeithio ar gymdeithas y dylai aelod o'r cyhoedd bod yn bresennol yn gorfforol, er yn rhithiol.
- Diolchwyd i'r swyddogion am y trefniadau a'r gwaith er mwyn i gyfarfodydd barhau. Ategwyd y diolch hwn at gadeiryddion sydd wedi addasu i ddulliau newydd o gadeirio.

Mewn ymateb, nododd y Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol a'r Rheolwr Gwasanaethau Democratiaeth ac Iaith y pwyntiau canlynol:

- Mai trefniadau interim oedd yn rhwystro'r cyhoedd rhag cael mynediad ond bod y rhain wedi eu codi a bod hawl ganddynt i weld a chlywed trafodaethau'r cyfarfod bellach.
- Bod cynnal y cyfarfod drwy webinar wedi ei dreialu mewn pwyllgorau eraill a bydd mwy o dreialu i ddod yn y dyfodol agos, fodd bynnag ni lwyddwyd i dreialu'r pwyllgor heddiw oherwydd anawsterau technegol.
- Bydd trefniadau'r dyfodol yn ei gwneud yn haws i aelodau neu'r cyhoedd fynychu cyfarfodydd a phwyllgorau gan fod opsiwn i wneud hynny yn rhithiol.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30 a daeth i ben am 11:55.

**CADEIRYDD**

| | |
|---|---|
| CYFARFOD | Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth |
| DYDDIAD | 16 Tachwedd 2021 |
| PWNC | Fframwaith gweithredu pwyllgorau i'r dyfodol |
| PWRPAS | Cyflwyno Fframwaith Gweithredu Pwyllgorau drafft er mwyn ei argymell i'r Cyngor llawn ei fabwysiadu |
| AWDUR | Geraint Owen,<br>Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth<br>Mewn ymgynghoriad â Iwan Evans,<br>Swyddog Monitro |

**Cefndir.**

1. Mae Rhan 3 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn
   - Rhoi hawl mynediad o bell i gyfranogwyr i gyfarfodydd democrataidd ffurfiol.
   - Caniatáu cynnal cyfarfodydd democrataidd ffurfiol unai mewn lleoliad neu yn rhithiol gan ddarparu mynediad i'r cyhoedd i bwyllgorau drwy drefniadau electroneg
   - Gosod disgwyliad i gyhoeddi ein trefniadau ar gyfer cynnal cyfarfodydd democrataidd ffurfiol
   - Gosod disgwyliad i we ddarlledu cyfarfodydd democrataidd (disgwylir rheoliadau fydd yn sefydlu ystod y gofyn).

2. Mae nifer o adroddiadau wedi eu cyflwyno ar wahanol elfennau eisoes, gyda'r Cyngor llawn wedi mabwysiadu trefniadau interim dros dro yn ei gyfarfod ar 8fed o Orffennaf, 2021. Cyflwynwyd diweddariad i gyfarfod y Cyngor llawn ar y 7fed o Hydref yn amlinellu'r trefniadau ymarferol (uwchraddio'r siambrau er mwyn cynnal cyfarfodydd hybrid) a'r camau eraill sydd angen eu cyflawni er mwyn symud y gwaith yn ei flaen.

3. Roedd adroddiad y 7fed o Hydref yn nodi'r angen i sefydlu Fframwaith Pwyllgorau fydd yn amlinellu pa gyfarfodydd fydd yn parhau i gael eu cynnal yn rhithiol a pha gyfarfodydd fydd yn cael eu cynnal o leoliad gyda darpariaeth mynychu o bell (sef yn hybrid).

**Fframwaith Gweithredu Cyfarfodydd a phwyllgorau.**

4. Rydym yn cael ein hatgoffa yn y ddogfen 'Arweiniad Statudol Interim ar Gyfarfodydd Aml-leoliad' a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mai 2021 mai diben cyffredinol addasu'r ddeddf i alluogi mynediad o bell oedd "…mwy o hygyrchedd a gwell cyfranogiad gan y cyhoedd mewn llywodraeth

DRAFT

leol.” Maent hefyd yn nodi fod “cyfleustra cyfranogwyr a gweithrediad effeithlon awdurdodau perthnasol eu hunain yn bwysig ond anghenion y cyhoedd a ddaw yn gyntaf pan fydd y penderfyniadau hyn yn cael eu gwneud.” Bydd yn rhaid i unrhyw drefniadau a sefydlir gwrdd â’r gofynion yn yr arweiniad statudol.

5. Pwrpas y papur yw cyflwyno Fframwaith Gweithredu Pwyllgorau (ar ffurf drafft) i gael sylwadau Aelodau’r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth cyn cyflwyno’r Fframwaith i’r Cyngor llawn ei fabwysiadu.

6. Mae’r fframwaith yn seiliedig ar yr egwyddorion sylfaenol a sefydlwyd gan y pwyllgor hwn. Awgrymir rhai ychwanegiadau i’r egwyddorion (wedi eu tanlinellu isod). Mater o ddisgresiwn yw penderfynu ar pa drefniadau i’w rhoi mewn lle. Mae’r arweiniad statudol yn gosod yr ystyriaethau y dylid eu cloriannu wrth ddod i gasgliad. Mae anghenion democratiaeth leol ac anghenion y cyhoedd yn ystyriaeth hanfodol a blaenllaw wrth benderfynu ar y drefn. Mae’r sail ar gyfer y dyraniad yn unol â’r hyn sydd wedi ei nodi sef fod diddordeb uchel gan y cyhoedd yn y trafodaethau a’r penderfyniadau sy’n cael eu cynnal gan y cyfarfodydd a amlygir . Mae cynnal y cyfarfodydd mewn lleoliad ynghyd a gwe-ddarlledu yn rhoi yr ystod ehangaf o gyfleon i gael mynediad i drafodaethau.. Fe nodir hefyd fod argymhelliad ar gyfer cynnal ystod o gyfarfodydd drwy’r drefn rhithiol yn unig. Felly, fel fframwaith cyfarfodydd mae hyn yn adlewyrchu amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol ( Cymru) 2015.

DRAFFT

**Egwyddorion Fframwaith Gweithredu Cyfarfodydd a Phwyllgorau**

- ✓ Mae angen adeiladu ar lwyddiant y cyfarfodydd rhithiol sydd wedi eu cynnal dros y flwyddyn a hanner diwethaf
- ✓ <u>Rydym angen parhau i sicrhau fod ein trefniadau Democratiaeth yn dryloyw i bobl Gwynedd ac yn agored i bawb.</u>
- ✓ Dylid ymgeisio at gynnal y rhan fwyaf o gyfarfodydd yn rhithiol er mwyn:
    - Cyfrannu at yr agenda lleihau carbon trwy leihau teithio i Gynghorwyr <u>a Swyddogion</u>, yn arbennig yn sgil y ffaith fod y Cyngor wedi datgan argyfwng hinsawdd
    - Hybu amrywiaeth mewn Democratiaeth trwy annog hyblygrwydd mynediad o bell i gyfarfodydd rhithiol gan ddenu mwy o bobl sy’n gweithio a rhieni ifanc

- Defnyddio amser Cynghorwyr a Swyddogion yn fwy synhwyrol trwy leihau'r gofynion teithio
- Lleihau costau teithio
- Hybu cyfranogiad ac ymddygiad cadarnhaol

7. Mae'n bwysig hefyd cofio ein llwyddiant dros y flwyddyn a hanner diwethaf. Rydym wedi llwyddo i gynnal pob pwyllgor yn effeithiol yn rhithiol yn y ddwy iaith gan we-ddarlledu nifer ohonynt bellach. Yn ogystal, mae presenoldeb mewn cyfarfodydd wedi bod yn gyffredinol uwch ers iddynt fod yn cael eu cynnal yn rhithiol.

8. Rydym wedi gwrando ar y sylwadau sydd wedi eu cynnig gennych fel Cynghorwyr mewn amryw o gyfarfodydd ac mewn ymateb i'r holiadur diweddar. Mae'n deg casglu fod 75 ateb gwahanol gennych fel Cynghorwyr ar gyfer y sefyllfa ddelfrydol i'r dyfodol wrth drafod pwyllgorau unigol, gyda phawb yn ystyried ei sefyllfa b/personol ei hun.

9. Rydym wedi derbyn sylwadau gan bobl Gwynedd hefyd. Yn y Pwyllgor Cynllunio derbyniwyd sylwadau fod y trefniadau cyfredol sy'n galluogi mynychu yn rhithiol neu recordio darn i'w chware i'r pwyllgor wedi bod yn welliant ar y trefniadau blaenorol gan eu bod yn fwy hwylus i bobl Gwynedd. Ar y llaw arall, mae eraill wedi mynegi eu rhwystredigaeth o wylio cyfarfodydd ar we-ddarllediad yn unig gan nad yw'n cynnig yr un profiad a mynychu yr oriel gyhoeddus mewn siambr gan nad yw Aelodau mor ymwybodol o bresenoldeb y cyhoedd wrth ddod i benderfyniadau.

10. Tra bo'r ffbramwaith yn ceisio ymateb i'r prif negeseuon sydd wedi eu lleisio dros y misoedd diwethaf, mae'r pwyslais ar sicrhau fframwaith gynaliadwy i'r dyfodol, pwy bynnag fydd y Cynghorwyr fydd wedi eu hethol ar ôl Mai 2022, yn seiliedig ar yr egwyddorion uchod a'r arweiniad statudol.

**Be sy'n cael ei gynnig?**

11. Cyflwynir Fframwaith ar gyfer cyfarfodydd ffurfiol y Cyngor yn unol â gofynion y Ddeddf. Mae'n debyg y byddai'n synhwyrol datblygu fframwaith fewnol yn nodi disgwyliadau ar gyfer cyfarfodydd eraill y mae Cynghorwyr yn rhan ohonynt, megis cyfarfodydd mewnol, cyfarfodydd rhanbarthol a chenedlaethol ac hyfforddiant. Adroddir ar hyn yn y dyfodol.

12. Fel a nodwyd eisoes, mae gofynion y Ddeddf yn golygu y gellir cynnal cyfarfodydd yn rhithiol llwyr neu wrth ddarparu mynediad o bell lle mae lleoliad penodol megis y Siambr wedi ei adnabod (sef cyfarfod hybrid).

13. Mae'n bwysig nad ydym yn llithro yn ôl i hen drefniadau oherwydd arferiad ac yn colli golwg ar yr egwyddorion a nodwyd uchod. Dyma ein cyfle fel Cyngor i arloesi a gosod disgwyliadau gweithredu cynaliadwy i'r dyfodol.

14. Er mwyn datblygu'r fframwaith ar seiliau cadarn, mae'n debyg mai'r egwyddor syml i'w dilyn yw:
    a) cynnal cyfarfodydd pwyllgorau ffurfiol yn rhithiol lle bo modd gwneud hynny.
    b) cynnal cyfarfodydd hybrid lle bo diddordeb uchel gan y cyhoedd.

15. Bydd aelodau'r pwyllgor yn cofio y gwaith manwl a wnaethpwyd i adnabod y pwyllgorau i'w gwe-ddarlledu yn wreiddiol, gyda'r ffocws ar faterion o ddiddordeb i'r cyhoedd. Adnabuwyd y Cyngor llawn, Cabinet, a'r Pwyllgor Cynllunio yn wreiddiol, gan ymestyn y trefniadau gwe-ddarlledu i bwyllgorau craffu hefyd. Argymhellir y gellid dilyn yr un trefn i adnabod y pwyllgorau sydd i'w cynnal drwy drefn hybrid, fel a nodir uchod.

16. Lle cynhelir cyfarfodydd yn hybrid, argymhellir fod Cynghorwyr yn ystyried o ddifri os oes rhaid teithio i'r lleoliad, gan gofio na fydd amgylchiadau yn y siambrau a'r swyddfeydd yr un fath ag yr oeddent yn flaenorol. Noder y bydd mwyafrif swyddogion yn mynychu cyfarfodydd o bell ac na fydd modd picio i swyddfa swyddogion i'w gweld cyn neu ar ôl cyfarfod.

17. Mae goblygiadau adnoddau i gynnal cyfarfodydd hybrid, a rhagwelir y bydd yn rhaid i gohort o swyddogion y Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith sy'n cefnogi'r pwyllgor o safbwynt technegol a chyfieithu ar y pryd fynychu'r lleoliad pan fydd cyfarfod hybrid yn cael ei gynnal.

18. Gellir gweld tabl o effaith yr argymhelliad uchod fesul pwyllgor yn **Atodiad A**. Cydnabyddir y byddai eithriadau i'r trefniadau, megis cyfarfodydd cyntaf yn dilyn etholiadau. Yn ogystal, bydd yn angenrheidiol adolygu ein trefniadau o fewn cyfnod rhesymol.

19. Ymhellach, rydym yn tybio y bydd cymryd rhan mewn cyfarfod hybrid, ac yn arbennig cadeirio cyfarfod hybrid yn brofiad gwahanol ac yn gofyn am sgiliau gwahanol a newydd. Bydd yn angenrheidiol adnabod ymarfer da ar gyfer cadeirio cyfarfodydd o'r fath a chynnig hyfforddiant i Gynghorwyr.

**Mynediad i'r cyhoedd**

20. Law yn llaw a'r trefniadau uchod mae'n angenrheidiol sicrhau a datgan sut yr ydym am sicrhau mynediad i'r cyhoedd i'n pwyllgorau. Ar gyfer pwyllgorau rhithiol bydd mynediad i'r cyhoedd drwy wylio'r gwe ddarlledu neu drwy gysylltu i gael mynediad fel arall. Bydd manylion ar flaen y rhaglen fel sy'n digwydd yn gyfredol.

21. Ar gyfer cyfarfodydd hybrid lle bo lleoliad penodol wedi ei nodi, bydd modd i'r cyhoedd gael mynediad i gefn y siambr. Os yw'r cyfarfod hefyd yn cael ei we ddarlledu bydd mynediad i'r cyhoedd trwy'r gwe ddarllediad hefyd.

22. Mae hyn i gyd yn codi cwestiwn ynghylch a'r trefniant blaenorol lle roedd y Pwyllgor Cynllunio yn cynnal ei gyfarfodydd mewn aml leoliadau.

**Deddf Cydraddoldeb 2010**

23. Mae'r Cyngor yn ddarostyngedig i ddyletswydd dan Deddf Cydraddoldeb 2010 i ddal sylw priodol at yr angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu a gormesu anghyfreithlon, ynghyd ag ymddygiadau eraill a waherddir dan ddarpariaethau'r Ddeddf. Yn ogystal mae angen cynyddu cyfle cyfartal a hyrwyddo perthnasau da rhwng y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig a'r rhai nad oes ganddynt (y Dyletswydd Cydraddoldeb Cyffredinol). Yn unol â'r gofyn yng Nghymru ac er cyfarch y dyletswydd yma, mae Asesiad Ardrawiad Cydraddoldeb wedi ei baratoi a'i ddiweddaru ar gyfer cyfarfodydd hybrid. Mae wedi ei atodi yn **Atodiad B** ac nid yw wedi canfod ardrawiadau fyddai yn arwain at newid yr argymhelliad.

DRAFT

**ATODIAD A**

| **Math o gyfarfod** | **Pwyllgorau dan sylw** |
|---|---|
| **Hybrid** | • Cyngor llawn<br>• Cabinet<br>• Cynllunio<br>• Craffu |
| Rhithiol llwyr | • Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth<br>• Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu<br>• Pwyllgor Safonau<br>• Pwyllgor Iaith<br>• CYSAG<br>• Cyd bwyllgor ymgynghorol Lleol<br>• Pwyllgor Pensiynau<br>• Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion *<br>• Pwyllgor Trwyddedu Canolog/Cyffredinol (a'r is-bwyllgorau trwyddedu cyffredinol a chanolog)<br>• Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y cyd<br>• Unrhyw is-bwyllgor |
| Eithriadau posib | Pwyllgor Apelau Cyflogaeth (dibynnol ar gais yr unigolyn).<br><br>Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion - ystyriaeth pan fo cyfweliadau – rhithiol fel arall<br><br>Pwyllgorau ac Is Bwyllgorau lle cynhelir gwrandawiadau quasi- farnwriaethol. |

Bydd Pwyllgorau Ymgynghorol Harbwr Porthmadog/Pwllheli/ Aberdyfi/ Abermaw i'w hystyried eto.

DRAFT

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth |
| **DYDDIAD** | 16 Tachwedd 2021 |
| **TEITL** | Etholiadau Llywodraeth Leol Mai 2022 |
| **PWRPAS** | Cyflwyno diweddariad ar y gwaith paratoi ar gyfer Etholiad Llywodraeth Leol, Mai 2022 |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn yr adroddiad er gwybodaeth<br>Creu Is-Grŵp Etholiad i edrych yn fanylach ar rai elfennau o'r gwaith paratoi. |
| **AWDUR** | Annes Sion<br>Arweinydd Tîm Democratiaeth |

RHAGAIR

1. Rydym oll yn ymwybodol fod etholiadau Llywodraeth Leol yn cael eu cynnal ym mis Mai 2022. Yn sgil hyn mae cryn waith paratoi – gennych chi fel aelodau etholedig, gan y grwpiau gwleidyddol, yn ogystal a gennym ni fel swyddogion.

2. Mae'r gwaith eisoes wedi cychwyn, ac mae'r adroddiad hwn yn rhoi diweddariad o'r cynlluniau drafft sydd eisoes mewn lle a'r gwaith pellach sydd I'w gyflawni dros y misoedd nesaf i baratoi at yr Etholiad ym mis Mai a'r cyfnod yn syth ar ôl hynny.

3. <u>Wythnos Ddemocratiaeth</u>
   Fel rhan o'r paratoadau at yr etholiad cynhaliwyd wythnos ymwybyddiaeth democratiaeth yn ystod mis Hydref eleni er mwyn hybu ymwybyddiaeth o ddemocratiaeth ac annog amrywiaeth yn yr ymgeiswyr sy'n sefyll etholiad. Cynhaliwyd yr ymgyrch drwy'r gwefannau cymdeithasol oedd yn cynnwys rhannu fideo byr o brofiadau rhai o'r Cynghorwyr presennol, ystadegau a gwybodaeth ddefnyddiol. Mae'r wybodaeth hefyd ar wefan y Cyngor.

4. Bu i'r gweithgareddau gyrraedd 14,000 o bobl drwy wefan Facebook, a bu i dros 2,000 o bobl wylio'r fideo gan ddetholiad o'r Cynghorwyr. Bydd negeseuon yn parhau i gael eu rhannu ar wefannau cymdeithasol dros y misoedd nesaf i godi ymwybyddiaeth a diddordeb am yr etholiad ac i annog amrywiaeth o bobl i sefyll.

5. Fel rhan o'r paratoadau ar gyfer yr wythnos diweddarwyd y dudalen 'Bod yn Gynghorydd' ar y wefan i sicrhau bod y wybodaeth ddiweddaraf ar gael ei ddarpar ymgeiswyr. Dros y misoedd nesaf bydd y wybodaeth yn cael ei ddiweddaru'n gyson, yn benodol ar gyfer yr elfen 'Sut i Sefyll Etholiad'. Ar hyn o bryd rydym yn disgwyl rhai newidiadau, ond yn parhau i ddisgwyl arweiniad statudol i gadarnhau'r sefyllfa.

6. Fel rhan o'r wythnos trefnwyd sesiwn 'Cwestiwn ac Ateb' ar gyfer darpar ymgeiswyr fel bo modd iddynt dderbyn mwy o wybodaeth am fod yn Gynghorydd gan swyddogion. Rhaid nodi na dderbyniwyd unrhyw gais i fynychu'r sesiynau, a oedd yn siomedig tu hwnt. Credwn fod nifer o ffactorau wedi arwain at hyn megis dim digon o hysbysebu, dyddiad y digwyddiad yn ystod gwyliau hanner tymor ac efallai ei fod yn cael ei gynnal yn gynamserol. Byddwn yn trefnu sesiynau pellach ym mis Ionawr 2022 a fydd yn gyfle pellach i unigolion holi am rôl Cynghorydd, y disgwyliadau arnynt, y gefnogaeth sydd ar gael, ynghyd a'r camau sydd

angen eu dilyn er mwyn sefyll etholiad. Byddwn hefyd wedi ail ystyried sut yr ydym yn codi ymwybyddiaeth o'r sesiynau hyn.

7. <u>Hyfforddiant Aelodau.</u>
Fel rhan o'r paratoi ar gyfer yr etholiad mae gwaith wedi bod yn cael ei wneud i edrych ar y rhaglen hyfforddiant ar gyfer Cynghorwyr ar gyfer y flwyddyn gyntaf yn dilyn yr etholiad. Mae blaenoriaethu hyfforddiant angenrheidiol, yn arbennig ar gyfer aelodau newydd, yn holl bwysig er mwyn eu harfogi gyda'r wybodaeth angenrheidiol i gyflawni'r rôl. Fodd bynnag, mae'n dasg anodd i sicrhau cydbwysedd rhwng darparu'r wybodaeth angenrheidiol a sicrhau nad ydynt yn cael eu boddi gyda gormod o wybodaeth ac hyfforddiant.

8. Mae rhaglen ddrafft o'r hyfforddiant a gynigir ynghyd ag amserlen fras ar gyfer y flwyddyn gyntaf i'w gweld yn **Atodiad 1**. Gwerthfawrogir sylwadau ar y rhaglen ddrafft.

9. <u>Llyfryn Aelodau</u>
Yn ôl yn 2017 a penderfynwyd peidio rhoi pecyn gwybodaeth i Gynghorwyr yn ystod y dyddiau anwytho er mwyn cryfhau'r neges fod Cyngor Gwynedd yn Gyngor sy'n anelu at fod yn ddi bapur. Mae'r Cyngor wedi datgan argyfwng hinsawdd ac yn parhau i anelu at fod yn ddi bapur, fodd bynnag, wrth adlewyrchu ar y gwersi a ddysgwyd o 2017 a gwrando ar sylwadau Cynghorwyr credwn fod budd mewn creu llyfryn cryno i Aelodau ar ddechrau'r tymor. Mae'r llyfryn cryno fel math o gyfeirlyfr sydd yn rhoi gwybodaeth angenrheidiol am y Cyngor, Pwyllgorau, cyflogau a chysylltiadau defnyddiol, gan gyfeirio'r Cynghorwyr at lle i gael hyd i mwy o wybodaeth.

10. Datblygwyd drafft o'r llyfryn hwn dros y misoedd diwethaf, ond credir y byddai cael mewnbwn aelodau i'w gynnwys yn sicrhau fod y wybodaeth a ddarperir yn ddefnyddiol ac o gymorth i Gynghorwyr.

11. <u>Mewnrwyd Aelodau</u>
Mae'r gwaith yn parhau o ran datblygu'r mewnrwyd Aelodau i sicrhau fod y wybodaeth yn gyfredol i chi fel Cynghorwyr. Hoffwn dynnu eich sylw yn benodol at elfen newydd sydd wedi ei hychwanegu yn ddiweddar sef "Diogelwch".

12. Mae eich diogelwch fel Cynghorwyr yn eich gwaith yn y gymuned yn amlwg yn bwysig, ac mae hyn wedi dod yn gynyddol bwysig yn sgil covid a marwolaeth yr Aelod Seneddol Sir David Amess. Rydym wedi datblygu canllaw byr i chi ei ystyried wrth fod yn gweithio yn y gymuned, yn ogystal a darparu dolenni i nifer o safleoedd defnyddiol eraill.

13. Rydym yn parhau i ddatblygu'r Mewnrwyd Aelodau yn gyson ac yn gwerthfawrogi unrhyw sylwadau.

14. Er mwyn derbyn sylwadau a mewnbwn rydym yn awyddus i sefydlu Is-Grŵp Etholiad o oddeutu 4 neu 5 o aelodau'r Pwyllgor er mwyn cael barn ar wahanol elfennau o'r gwaith paratoi dros y misoedd nesaf.

**15. PENDERFYNIAD A GEISIR**

- **Derbyn yr adroddiad er gwybodaeth**
- **Sefydlu Is-Grŵp Etholiad o oddeutu 4 neu 5 o aelodau'r pwyllgor i edrych yn fanylach ar rai elfennau o'r gwaith paratoi, megis hyfforddiant, llyfryn aelodau a'r mewnrwyd aelodau.**



Dysgu a Datblygu'r Sefydliad

## Hyfforddiant Aelodau - Teitlau am y flwyddyn i ddod (Mai 2022)

| Pryd? | Teitl | Maes gwaith | Cyfrwng | Perthnasol i:- |
|---|---|---|---|---|
| DYDDIAU CYNTAF | ANWYTHO | Croeso i'r Cyngor:<br>Cyflwyniad cryno am Gyngor Gwynedd gan gynnwys son am Ffordd Gwynedd a Rôl y Gymraeg. | Cyflwyniad (rhithiol neu wyneb i wyneb). | |
| | | Côd Ymddygiad – Trosolwg ac Arwyddo | Fel uchod | |
| | | Cyflwyniad i Wynedd – Cwis syml | Fel uchod | |
| | | Gwybodaeth am drefniadau Democratiaeth | Fel uchod | |
| | | Cefnogaeth i Aelodau, gan gynnwys Dysgu a Datblygu – Cyfleon datblygol | Fel uchod | |
| | | Materion ymarferol (cyflogau, Hunanwasanaeth, Mewnrwyd Aelodau ayyb) | Fel uchod | |
| | | Yn ystod y dydd bydd hefyd gyfle i gael<br>• cymorth TG/dewis neu dderbyn teclyn, arwyddo am dderbyn swydd,<br>• ymuno â grwp gwleidyddol,<br>• tynnu llun,<br>• holi am fwy o wybodaeth gan Tîm Democratiaeth a'r Tîm Dysgu a Datblygu | Fel uchod | |
| | | | | |
| MIS CYNTAF | BETH SY'N GWNEUD CYNGHORYDD DA? | Modiwl e-ddysgu neu gyflwyniad.<br>Cael aelodau profiadol i siarad am eu profiadau a'r problemau / anawsterau Tips ar gyfer cyfathrebu gydag Etholwyr, sut i gyfathrebu trwy gyfryngau cymdeithasol ayyb | Rhithiol / wyneb i wyneb / Modiwl e ddysgu<br>Recordio sesiynau a'u gosod ar y Fewnrwyd | |
| | CYFLWYNIAD GAN BENAETHIAID ADRANNAU'R CYNGOR | Trosolwg o gyfrifoldebau'r Adrannau a chyfle i Aelodau holi cwestiynau | Rhithiol / wyneb i wyneb<br>Recordio sesiynau a'u gosod ar y Fewnrwyd | |
| | PWYLLGORAU CYNLLUNIO /SAFONAU / TRWYDDEDU | Y Pwyllgor Cynllunio – aelodau'r pwyllgor<br><br>Y Broses Gynllunio – Sesiwn ar gyfer Aelodau sydd gyda eitemau'n codi mewn Pwyllgorau yn eithaf buan<br><br>Cyflwyniad i Gynllunio – Sesiwn i holl Aelodau | Rhithiol / wyneb i wyneb<br><br>Rhithiol / wyneb i wyneb<br><br>Rhithiol / wyneb i wyneb | Aelodau'r Pwyllgor<br><br>Aelodau penodol<br><br>Holl Aelodau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | ASESIAD GWEITHFAN | Asesu gweithfan yn y cartref trwy holiadur/modiwl | Rhithiol | Ar gael i bawb, ac yn syth |
| | DELIO EFO GWYBODAETH AM BOBL : EICH CYFRIFOLDEB FEL AELOD | Deall goblygiadau cyffredinol y GDPR a Deddf Diogelu Data 2018<br>Deall gofynion penodol y Ddeddf<br>Deall sut i gydymffurfio a'r Ddeddf | Rhithiol / wyneb i wyneb / E-Fodiwl | Aelodau Newydd a unrhyw Aelod sydd heb gwblhau'r teitl |
| | | | | |
| TRI MIS CYNTAF | COD YMDDYGIAD | Sesiwn mwy manwyl yn dilyn y cyflwyniad/crynodeb yn yr Anwytho | Rhithiol / wyneb i wyneb | Holl Aelodau |
| | CADEIRIO CYFARFODYDD (Arwain a Chyfrannu at Bwyllgorau Effeithoil) | Hyfforddiant i Gadeiryddion ac Is-Gadeiryddion | Rhithiol / wyneb i wyneb | Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion |
| | DIOGELWCH PERSONOL | Gweithio'n Unig | Rhithiol / wyneb i wyneb | Holl Aelodau |
| | CYFLWYNIAD I WYNEDD | Deall gwybodaeth a ffeithiau am y Sir | Fideo ar y Fewnrwyd Aelodau | Holl Aelodau |
| | DEDDF GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT | Deall goblygiadau'r Ddeddf i Wynedd | Rhithiol / wyneb i wyneb | Aelodau Newydd gyda chroeso i Aelodau sy'n dychwelyd |
| | DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL | Deall goblygiadau cyffredinol y Ddeddf a deall gofynion penodol y Ddeddf o'ch safbwynt chi fel Cynghorydd | Rhithiol / wyneb i wyneb | Aelodau Newydd gyda chroeso i Aelodau sy'n dychwelyd |
| | PWYLLGORAU | Hyfforddiant Pwyllgorau Craffu, Archwilio, Trwyddedu | Rhithiol / wyneb i wyneb | Aelodau'r Pwyllgorau |
| | | | | |
| HYD AT 12 MIS CYNTAF | CYFRYNGAU CYMDEITHASOL | Sut i wneud i gyfryngau cymdeithasol weithio i Gynghorwyr, pa fath o bethau i'w rhannu, sut i beidio ymddwyn ar gyfryngau cymdeithasol, bwlio ayyb. | Rhithiol / wyneb i wyneb / Modiwl e-Ddysgu | Aelodau Newydd ac unrhyw Aelod arall fyddai'n dymuno |
| | ARWAIN YN DDIOGEL | Deall gofynion cyfreithiol y Cyngor o ran iechyd a diogelwch | Rhithiol / wyneb i wyneb | Aelodau Newydd ac Aelodau sydd heb wneud yr hyfforddiant |
| | CYDRADDOLDEB | Eich cyfrifoldeb fel Aelod Etholedig ym maes cydraddoldeb wrth wneud penderfyniadau | Rhithiol / wyneb i wyneb | Aelodau Newydd ac Aelodau sydd heb wneud yr hyfforddiant |
| | DIOGELU PLANT AC OEDOLION | Eich cyfrifoldeb fel Aelod | Rhithiol / wyneb i wyneb / Modiwl e-Ddysgu | Aelodau Newydd ac Aelodau sydd heb wneud yr hyfforddiant |
| | RHIANTU CORFFFORAETHOL | Eich cyfrifoldeb fel Aelod | Rhithiol / wyneb i wyneb / Modiwl e-Ddysgu | Aelodau Newydd ac Aelodau sydd heb wneud yr hyfforddiant |
| | ROL Y GYMRAEG YN Y GYMUNED | Gwella dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o gyfrifoldeb y Cyngor i hybu a hyrwyddo'r | Rhithiol / wyneb i wyneb | Aelodau Newydd ac Aelodau sydd |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Gymraeg ar draws y Sir a beth gallan nhw ei wneud i helpu hynny y neu cymunedau | | heb wneud yr hyfforddiant |
| | | | | |
| AR GAIS | HYFFORDDIANT TG | Sesiynau Un i Un | Rhithiol / wyneb i wyneb | Ar gyfer y rhai sydd angen |
| | ASESIAD GWEITHFAN | Asesu gweithfan yn y cartref trwy holiadur/modiwl | Rhithiol | Ar gael i bawb, ac yn syth |
| | CYFRYNGAU CYMDEITHASOL | Sut i wneud i gyfryngau cymdeithasol weithio i Gynghorwyr, pa fath o bethau i'w rhannu a peidio rhannu, sut i beidio ymddwyn ar gyfryngau cymdeithasol, bwlio ayyb. | Rhithiol / wyneb i wyneb | Ar gael i bawb sy'n dymuno cael sesiwn un i un |

# CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | 16 Tachwedd 2021 |
| **TEITL YR EITEM** | Datganiad Cyngor Gwynedd ynghylch Amrywiaeth |
| **PWRPAS** | Cyflwyno Rhaglen waith ddrafft yn amlinellu'r camau er mwyn gwireddu Datganiad Amrywiaeth Cyngor Gwynedd, a'i argymell i'w fabwysiadu gan y Cyngor Llawn |
| **SWYDDOG CYSWLLT** | Geraint Owen, Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth |

## 1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Argymhellir bod y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth yn ystyried y rhaglen waith ar gyfer cefnogi'r Datganiad Amrywiaeth a'i argymell i gyfarfod y Cyngor Llawn ar yr 2il o Ragfyr 2021.

## 2. CEFNDIR A RHESYMEG

### Rhagair

3. Yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ar y 7fed o Hydref, 2021 bu i Gyngor Gwynedd fabwysiadu Datganiad Amrywiaeth er mwyn datgan yn glir a chyhoeddus ein ymrwymiad ni yng Ngwynedd i amrywiaeth mewn democratiaeth. Mae'r datganiad i'w weld yn **Atodiad A**.

4. Yn amlwg mae'n ofynnol sicrhau fod y Cyngor yn cymryd camau penodol i geisio hybu amrywiaeth mewn democratiaeth a gwireddu'r datganiad uchod. Penderfynodd y Cyngor ofyn i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth arwain ar ddatblygu rhaglen waith llawn ar gyfer gwireddu'r datganiad gan fod aelodau'r Pwyllgor eisoes wedi arwain ar y maes yng Ngwynedd ers rhai blynyddoedd.

5. Mae gwaith eisoes yn digwydd er mwyn symud yr agenda ymlaen. Mae'n cynnwys

- cydweithio agos gyda'r prosiect etholfraint 16 ac 17 oed.
- Cynnal nifer o amrywiol weithgareddau ar gyfer wythnos democratiaeth Gwynedd a gynhaliwyd wythnos y 18fed o Hydref ymlaen. Bu cyfres o negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol i geisio ennyn diddordeb unigolion i sefyll fel Cynghorydd.

- Trafod gydag Arweinyddion y Grwpiau Gwleidyddol ar eu rôl benodol hwy i hybu amrywiaeth mewn democratiaeth wrth annog a dewis unigolion i sefyll yn etholiadau Mai 2022.

6. Mae rhaglen waith ddrafft wedi ei chynnwys yn **Atodiad B**. Argymhellir felly fod y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth yn cynnig sylwadau a gwelliannau i'r rhaglen waith, a'i fabwysiadu ar gyfer ei gyflwyno i'r Cyngor llawn ar yr 2il o Ragfyr, 2021.

**ATODIAD A - Datganiad Amrywiaeth Cyngor Gwynedd**

*Mae'r Cyngor hwn yn ymrwymo i fod yn Gyngor Amrywiol. Trwy hynny, rydym yn awyddus i fod yn adlewyrchu'r gymdeithas rydym yn byw ynddi gan geisio cynyddu'r niferoedd o ferched, pobl ifanc, pobl anabl, pobl o gymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig a phobl sy'n adnabod fel LGTBQ+ sy'n sefyll etholiad i fod yn Gynghorydd Gwynedd.*

*Rydym yn ymrwymo i*

- *Ddarparu ymrwymiad clir a chyhoeddus i wella amrywiaeth mewn democratiaeth*
- *Ddangos diwylliant agored a chroesawgar i bawb, a hyrwyddo'r safonau ymddygiad uchaf*
- *Hybu gweithrediadau fel Cyngor Amrywiol cyn etholiadau lleol 2022.*
- *Weithio ar y safonau a nodir yn Siarter Cymru ar gyfer Cymorth a Datblygu i Aelodau.*
- *Ddangos ymrwymiad i ddyletswydd gofal dros Gynghorwyr*
- *Ystyried sut i ddarparu hyblygrwydd ym musnes y cyngor drwy adolygu ein trefniadau ymarferol*
- *Barhau i annog fod yr holl aelodau yn derbyn y lwfansau a'r cyflogau y mae ganddynt hawl eu derbyn, ac yn benodol unrhyw ad-daliadau am gostau gofal, fel bod yr holl aelodau yn derbyn cydnabyddiaeth deg am eu gwaith ac nad yw rôl yr aelodau yn gyfyngedig i'r rhai all ei fforddio.*
- *Weithio tuag at sicrhau bod cynghorwyr o grwpiau a dangynrychiolir yn cael eu cynrychioli pryd bynnag fo'n bosibl mewn rolau proffil uchel a dylanwad uchel.*

**ATODIAD B – RHAGLEN WAITH DDRAFFT**
**Wrth ymrwymo i fod yn Cyngor Amrywiol, rydym am:**

| **Ymrwymiad** | **Beth ydym am ei wneud?** | **Amserlen** |
|---|---|---|
| *Ddarparu ymrwymiad clir a chyhoeddus i wella amrywiaeth mewn democratiaeth* | Cyngor llawn yn mabwysiadu datganiad amrywiaeth.<br><br>Holi aelodau am eu profiadau, gan gynnwys pa rwystrau sydd wedi eu hwynebu a pha gamau ychwanegol y gellir eu cymryd i ddileu'r rhwystrau hyn. Adeiladu ar y gwaith sydd wedi ei wneud gyda'r grŵp merched sy'n gynghorwyr.<br><br>Diweddaru safle we 'bod yn gynghorydd' gan weithio gyda'r tîm etholiadau<br><br>Cynnal ymgyrch, dan faner 'Wythnos Democratiaeth' yn y lle cyntaf i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o rôl cynghorwyr, eu rôl o fewn y gymuned a sut i ddod yn gynghorydd. Datblygu "strapline" i'r wythnos megis "wyt ti am i dy lais gael ei glywed? Beth am sefyll fel Cynghorydd?<br><br>Parhau gyda'r ymgyrch 'farchnata' uchod i godi ymwybyddiaeth o rôl cynghorydd gan weithio gyda'r tîm etholiadau i godi sylw at fuddion pleidleisio, hawl pleidleisio i bobl ifanc 16 ac 17 oed, a chodi ymwybyddiaeth o etholiadau Llywodraeth Leol ar yr un pryd. Y cyfan yn annog unigolion i ystyried bod yn gynghorydd.<br><br>Parhau i weddarlledu cyfarfodydd er mwyn bod yn agored a thryloyw. Ystyried datblygu ffyrdd o godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r cyfarfodydd sy'n cael eu cynnal a'r eitemau sy'n cael eu trafod. | 07/10/2021<br><br>Tachwedd/ Rhagfyr 2021<br><br>Medi /hydref 2021<br><br>Hydref 2021<br><br>Parhaus<br><br>Parhaus |
| *Dangos diwylliant agored a chroesawgar i bawb, a hyrwyddo'r safonau ymddygiad uchaf* | Codi ymwybyddiaeth arweinyddion y grwpiau gwleidyddol cyfredol i'r posibiliadau o hybu amrywiaeth mewn democratiaeth a'r gofynion ynghylch hyrwyddo'r safonau ymddygiad o'r lefel uchaf yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, gan drafod y posibilrwydd o benodi Llysgenhadon Amrywiaeth o fewn y grwpiau gwleidyddol.<br><br>Datblygu rhaglen anwytho gynhwysfawr yn seiliedig ar fframwaith anwytho Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i gynnwys hyfforddiant ar | Medi 2021 a Tachwedd 2021<br><br>Ebrill 2022 |

| Ymrwymiad | Beth ydym am ei wneud? | Amserlen |
|---|---|---|
| | y Cod Ymddygiad (gan gynnwys parch at eraill), a Chydraddoldeb ac amrywiaeth (gan gynnwys hunan ymwybyddiaeth ac ymddygiad.<br><br>Parhau i ddatblygu rhaglen hyfforddiant yn flynyddol mewn ymgynghoriad gyda'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth er mwyn cynnig datblygiad parhaus. | <br><br><br><br>Ebrill 2022 |
| *Hybu gweithrediadau fel Cyngor Amrywiol cyn etholiadau lleol 2022* | Cynnal rhaglen o weithgareddau ar lein yn ystod wythnos democratiaeth Gwynedd er mwyn hyrwyddo rôl Cynghorwyr a chodi ymwybyddiaeth i etholiadau Llywodraeth Leol gan annog unigolion i ystyried sefyll (rhaglen barhaus yn cychwyn Hydref 2021 gan ail adrodd ar gyfnodau penodol)<br><br>Cynnig sesiwn cwestiwn ac ateb ar gyfer pobl sy'n ystyried sefyll fel pen llanw i wythnos democratiaeth Gwynedd. Bydd yn cynnwys esboniad o rôl cynghorydd, disgwyliadau, ymrwymiad, cyfleon, cefnogaeth ayyb. Bydd fideos o wahanol gynghorwyr yn rhannu eu profiadau yn debygol o fod yn rhan o'r gweithgaredd.<br><br>Cynnig sylwadau fel rhan o ymgynghoriad i'r holiadur ymgeiswyr, ac yna annog pob unigolyn sy'n sefyll i ymateb i holiadur Llywodraeth Cymru.<br><br>Mynychu gweithdy amrywiaeth mewn democratiaeth gan Gymdeithas Llywodraeth Cymru er mwyn dysgu gan banel sy'n brofiadol yn cefnogi rhai o grwpiau sydd wedi eu tan-gynrychioli yn draddodiadol, yn arbennig mewn gwleidyddiaeth.<br>Addasu y rhaglen waith yn dilyn yr uchod os yn berthnasol. | Hydref 2021 a Ionawr 2022<br><br><br><br><br><br><br>Hydref 2021 a Ionawr 2022<br><br><br><br><br><br><br><br>Tachwedd 2021 Mawrth/Ebrill 2022<br><br><br>Tachwedd 2021 |
| *Gweithio ar y safonau a nodir yn Siarter Cymru ar gyfer Cymorth a Datblygu i Aelodau* | Datblygu rhaglen anwytho a hyfforddiant lawn fel a nodwyd uchod.<br><br>Ystyried datblygu trefniadau mentora a/neu gysgodi fel rhan o'r rhaglen ar gyfer cefnogi Cynghorwyr newydd. | Ebrill 2022<br><br><br>Ebrill 2022 |
| *Ddangos ymrwymiad i ddyletswydd gofal dros Gynghorwyr* | Ystyried cynnal hyfforddiant penodol i Gynghorwyr newydd ar weithion unig, diogelwch personol, balans bywyd a gwaith, bwlio a'r cyfryngau cymdeithasol fel rhan o'r rhaglen anwytho dros y flwyddyn gyntaf. | Ebrill 2022 |

| Ymrwymiad | Beth ydym am ei wneud? | Amserlen |
|---|---|---|
| | Parhau i gynnig sesiynau llesiant meddyliol a chefnogaeth pellach i aelodau.<br><br>Darparu cefnogaeth ac arweiniad ar faterion ymarferol o safbwynt gosod gweithfan yn gywir – gwybodaeth ar safle mewnrwyd y cynghorwyr.<br><br>Cynnig cyfle i Gynghorwyr sy'n dymuno i nodi cyfeiriad swyddogol yn hytrach na chyfeiriad cartref ar y safle we.<br><br>Codi ymwybyddiaeth arweinyddion gwleidyddol o'r dyletswydd yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ynghylch hyrwyddo ymddygiad da. | Rŵan / parhaus<br><br>Rŵan / parhaus<br><br>Rŵan / parhaus<br><br>Tachwedd 2021 |
| *Ystyried sut i ddarparu hyblygrwydd ym musnes y cyngor drwy adolygu ein trefniadau ymarferol* | Gweithredu cyfarfodydd hybrid a chyfarfodydd rhithiol llwyr er mwyn gwneud gwell defnydd o amser Cynghorwyr.<br><br>Cynnal holiadur yn dilyn etholiad 2022 ar amseru cyfarfodydd prif bwyllgorau'r cyngor.<br><br>Ystyried cyfnodau gwyliau ysgol (gan eu hosgoi lle bo'r modd) wrth lunio calendr cyfarfodydd blynyddol y cyngor gan ymgynghori gyda'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth cyn cyflwyno i'r Cyngor llawn ei fabwysiadu.<br><br>Sicrhau hyfforddiant a chymorth i Gynghorwyr i fod a'r sgiliau technegol i gymryd rhan mewn cyfarfodydd rhithiol ac/neu hybrid. | Datblygu'n gyfredol<br><br>2022/23<br><br>Blynyddol<br><br>parhaus |
| *Parhau i annog fod yr holl aelodau yn derbyn y lwfansau a'r cyflogau y mae ganddynt hawl eu derbyn, ac yn benodol unrhyw ad-daliadau am gostau gofal, fel bod yr holl aelodau yn derbyn cydnabyddiaeth deg am eu gwaith ac nad yw rôl yr aelodau yn gyfyngedig i'r rhai all ei fforddio* | Gwybodaeth am gydnabyddiaeth ariannol i fod yn rhan o'r sesiynau i'r cyhoeddus yn yr wythnos ddemocratiaeth, yn wybodaeth ar ein safle we, a gwybodaeth yn llawlyfr Cynghorwyr sy'n cael ei ddatblygu ar gyfer y sesiynau anwytho.<br><br>Cyflogau yn cael eu talu yn awtomatig i Gynghorwyr yn unol â dyfarniad Panel Annibynnol Cymru, oni bai fod Cynghorydd unigol yn nodi yn wahanol.<br><br>Cynghorwyr yn cael eu hatgoffa yn gyson o'r ad-daliad costau gofal sydd ar gael – trwy newyddlen Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau | Hydref 2021<br><br>Parhaus<br><br>Parhaus |

| Ymrwymiad | Beth ydym am ei wneud? | Amserlen |
|---|---|---|
| | Democratiaeth a gan yr Arweinyddion Grwpiau gwleidyddol. | |
| *Gweithio tuag at sicrhau bod cynghorwyr o grwpiau a dangynrychiolir yn cael eu cynrychioli pryd bynnag fo'n bosibl mewn rolau proffil uchel a dylanwad uchel* | Gweithio gydag arweinyddion y grwpiau gwleidyddol i sicrhau fod ystyriaeth yn cael ei roi i grwpiau a dangynrychiolir ar gyfer rolau proffil a dylanwad uchel. | 2022/23 |

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod** : | 16 Tachwedd 2021 |
| **Pwnc** | Adroddiad Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol |
| **Argymhelliad** | Gofynnir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth am sylwadau ar gyfer llunio ymateb i'r argymhellion sydd wedi eu cyflwyno yn yr adroddiad drafft |
| **Swyddog Cyswllt:** | Vera Jones,<br>Rheolwr Democratiaeth ac Iaith |

**Beth yw'r cefndir ac ystyriaethau perthnasol?**

1. Mae 'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn cyhoeddi adroddiad drafft ym mis Hydref yn flynyddol. Mae'n amlinellu'r bwriad ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol. Cyhoeddwyd y drafft ym mis Hydref 2021, gyda chyfle i ymateb i'r argymhellion sy'n cael eu cyflwyno erbyn 26ain o Dachwedd, 2021.

2. Bydd y newidiadau drafft, petaent yn dod i rym yn weithredol ar gyfer Cynghorwyr sy'n cael eu hethol o fis Mai 2022 ymlaen.

**Rôl y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol**

3. Cyfrifoldeb y Panel yw gosod lefelau cyflogau Cynghorwyr Cymru, ac mae eu rôl yn hollol annibynnol. Ers ei sefydlu, mae'r Panel wedi mynegi'n gyson ac yn gadarn nad yw democratiaeth leol a llywodraethu gwasanaethau cyhoeddus yn ddi-gost a bod angen rhoi gwerth iddynt os ydym am alluogi i bawb gymryd rhan. Mae'n bwysig hyrwyddo diwylliant sy'n annog unigolion i dderbyn cydnabyddiaeth tâl i sicrhau y gall pobl o bob rhan o gymdeithas gymryd rhan yn hyderus yn ein democratiaeth.

4. Yn ogystal, mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Panel ystyried goblygiadau ariannol ei benderfyniadau. Mae'r Panel wedi gofod ceisio cydbwyso y ddwy elfen ochor yn ochor yn flynyddol wrth wneud ei benderfyniadau.

5. Mae'r Panel wedi nodi iddynt gymryd seibiant ac adlewyrchu ar effaith eu penderfyniadau a'r negeseuon y maent y neu cyfathrebu wrth fynd ati i wneud penderfyniadau eleni. Maent hefyd wedi ymgynghori yn eang gydag amrywiol fudd-ddeiliaid cyn llunio'r penderfyniadau drafft.

**Prif Benderfyniadau'r Panel**

6. Mae copi llawn o'r adroddiad ar ei ffurf drafft i'w gael ar y ddolen isod. https://llyw.cymru/panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-adroddiad-blynyddol-drafft-2022-i-2023

7. Tâl ar gyfer Aelodau etholedig. Yn 2009, penderfynodd y Panel mai ymrwymiad gwaith cynghorydd etholedig mewn prif gyngor, ar gyfartaledd, yw tri diwrnod gwaith. Bryd hynny nodwyd uchafswm cyflog sylfaenol o £13,868. Roedd hyn yn adlewyrchu tair rhan o bump o enillion gros canolrifol gweithwyr gwrywaidd amser llawn sy'n byw yng Nghymru, fel y nodwyd yn yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE) a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Roedd y Panel yn credu ei bod yn briodol defnyddio'r ffigwr hwn, gan y gellir ei gymharu â chyflog yr etholwyr, (wedi'i addasu ar gyfer natur rhan-amser gwaith aelod heb gyfrifoldebau uwch).

8. Ers 2009, mae'r Panel wedi gorfod ystyried pa mor fforddiadwy a derbyniol yw'r cyflog sylfaenol ac wedi gosod symiau ar gyfer cyflog sylfaenol sydd wedi amrywio, ond heb gyd-fynd â mesurau chwyddiant neu gymaryddion eraill. Mae Tabl 1 yn dangos y cynnydd canrannol i'r cyflog sylfaenol a detholiad o feincnodau eraill rhwng 2013 a 2021.

9. Rhwng 2013 a 2020 cynyddodd cyflog sylfaenol aelodau etholedig eraill Cymru 9% (£13,175 i £14,368).
   Cynyddodd cyflog Aelod o Senedd Cymru 28.6% (£53,852 i £69,272)
   Cynyddodd cyflog Aelod o Senedd y DU 23.4% (£66,396 i £81,932).

   Aildrefnwyd cyflogau Aelodau Senedd Cymru yn 2017 ac Aelodau Senedd y DU yn 2015.

10. Fel cyd-destun ehangach, mae'r Panel hefyd yn nodi fod cynghorwyr yr Alban yn cael £18,604 y flwyddyn ac yn 2018 roedd cynghorwyr Gogledd Iwerddon yn cael £15,486. Mae'n anoddach dwyn cymhariaeth gyda Lloegr oherwydd bod strwythur llywodraeth leol yn wahanol yn y wlad honno, er bod enghreifftiau lle bydd aelodau'n cael mwy o gyflog na'u cymheiriaid yng Nghymru.

11. Mae tabl 1 (wedi ei gynghyrchu yn yr adroddiad blynyddol drafft) yn dangos bod cyflog sylfaenol cynghorwyr y meinciau cefn bellach lawer iawn yn is na chyflog cyfartalog (canolrifol) Cymru a chyflog y sector cyhoeddus.

**Tabl 1 – Cynnydd canrannol blynyddol i'r cyflog sylfaenol, meincnodau a mesurau amgen 2013 i 2021**

| Blwyddyn Adroddiad Blynyddol | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| IRPW Sylfaenol | 0.00 | 0.00 | 0.95 | 0.00 | 0.00 | 0.75 | 3.49 | 2.52 |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **ASHE *** | 4.00 | 0.60 | 1.00 | 2.70 | 1.00 | 2.10 | 5.10 | **0.60** | **Hydref-21** |
| **NJC **** | 1.00 | 0.43 | 2.05 | 1.00 | 1.00 | 2.00 | 2.60 | **2.75** | **1.75** |
| **Aelod o Senedd Cymru** | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 1.00 | 17.70 | 2.10 | 3.50 | **0.00** | **2.40** |
| **Aelod o Senedd y DU** | 1.00 | 1.00 | 10.30 | 1.30 | 1.40 | 1.80 | 2.70 | **3.10** | **0.00** |
| **RPI***** | 3.00 | 2.40 | 1.00 | 1.80 | 3.60 | 3.30 | 2.60 | **1.50** | **3.80** |
| **CPI ******* | 2.60 | 1.50 | 0.00 | 0.70 | 2.70 | 2.50 | 1.80 | **0.90** | **2.00** |
| **NLW** | 1.90 | 3.00 | 3.10 | 7.50 | 4.20 | 4.40 | 4.90 | **6.20** | **2.18** |
| **LWF** | 3.47 | 2.68 | 2.61 | 5.10 | 2.42 | 3.55 | 2.86 | **3.33** | **2.15** |

** cynnig cyflogwyr terfynol NJC Gorffennaf 2021; *** RPI a CPI**** ar gyfer Gorffennaf 2021.

Enillion wythnosol gros Cyfartaledd Canolrifol Cymru (canolrif) yn ôl ardal leol yng Nghymru a'r flwyddyn (£) (llyw.cymru)

| | |
|---|---|
| Aelod o Senedd Cymru | Bwrdd Cydnabyddiaeth Ariannol |
| Aelod o Senedd y DU | Awdurdod Safonau Seneddol Annibynnol |
| RPI pob eitem | Mynegai Prisiau Manwerthu |
| CPI | Chwyddiant Prisiau Defnyddwyr |
| NLW | Cyflog Byw Cenedlaethol |
| LWF | Living Wage Foundation |

### Tabl 2 – Cyflog blynyddol sylfaenol a chyflog cyfartaledd cenedlaethol Cymru cyfwerth ag amser llawn a 3 diwrnod (60%) 2013 i 2021

| **Blwyddyn** | **Cyflog sylfaenol IRPW** | **ASHE Canolrifol Cymru** | |
|---|---|---|---|
| | | **Amser llawn** | **3 diwrnod** |
| 2013 | 13,175 | 24,499 | 14,699 |
| 2014 | 13,175 | 24,655 | 14,793 |
| 2015 | 13,300 | 24,915 | 14,949 |
| 2016 | 13,300 | 25,643 | 15,386 |
| 2017 | 13,300 | 25,904 | 15,542 |
| 2018 | 13,400 | 26,476 | 15,886 |
| 2019 | 13,868 | 27,828 | 16,697 |
| 2020 | 14,218 | 27,974 | **16,784** |
| 2021 | **14,368** | **Hydref 2021** | **Hydref 2021** |

12. Mae'r Panel yn credu bod yr etholiadau leol ym mis Mai 2022 yn adeg addas i gywiro'r anghydbwysedd rhwng cyflog sylfaenol cynghorwyr a chyflogau cyfartalog eu hetholwyr. Bydd cyflog sylfaenol cynghorwyr y prif gynghorau a etholir yn etholiadau lleol mis Mai 2022 yn cael ei ailosod i gyd-fynd ag AHSE 2020, sef £16,800.

13. Cyfraniad tuag at gostau Gofal a Chymorth Personol. Mae'r Panel yn nodi eu bod yn parhau i bryderu ynghylch y niferoedd sy'n defnyddio'r ddarpariaeth yn y fframwaith ar gyfer cymorth ariannol ar gyfer gofal. Maent yn nodi fod annog Aelodau sydd â chyfrifoldebau gofalu i fanteisio ar y cymorth ariannol hwn yn rhoi'r neges bositif o groesawu a gwerthfawrogi Aelodau sydd â'r cyfrifoldebau hyn.

14. Mae annogaeth i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth i barhau i annog a hwyluso gwell defnydd o'r elfen yma o'r fframwaith. Fel rhan o'r paratoadau ar gyfer etholiad Mai 2022 byddwn yn dwyn sylw darpar ymgeiswyr i'r gefnogaeth sydd ar gael.

15. Materion eraill - Mae adroddiad drafft y Panel hefyd yn cyfeirio at y newidadau a ddaw yn sgil Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, yn benodol ynghylch trefniadau rhannu swyddi.

**Amserlen**

16. Mae'r amserlen ar gyfer y newidiadau wedi ei nodi fel a ganlyn:
    1. Ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2022 i 8 Mai 2022, bydd yr holl Benderfyniadau yn Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2021/2022 yn parhau i fod yn berthnasol ar gyfer prif gynghorau a chynghorau tref a chymuned.
    2. O 9 Mai 2022, (blwyddyn newydd y cyngor) bydd y penderfyniadau a nodwyd yn yr Adroddiad yn Adrannau 3 ac 13 yn berthnasol i brif gynghorau a chynghorau tref a chymuned,

**Argymhelliad**

17. Gofynnir i aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth am eu sylwadau er mwyn ymateb i'r ymgynghoriad cyn 26ain o Dachwedd, 2021.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth** |
| **DYDDIAD** | **16 Tachwedd 2021** |
| **PWNC** | **Holiadur Bodlonrwydd Aelodau** |
| **PWRPAS** | **Rhannu ymatebion a dderbyniwyd I'r Holiadur am Fodlonrwydd Aelodau i'r Tîm Gwasanaethau Democratiaeth** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Gofynnir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth nodi'r sylwadau a derbyn yr adroddiad.** |
| **AWDUR** | **Annes Sion**<br>**Arweinydd Tîm Democratiaeth** |

1. Rydym yn awyddus i fod yn gwella ein gwasanaeth yn barhaus ac yn darparu'r gefnogaeth sydd ei angen ar gyfer Cynghorwyr. Felly, yn sgil trafodaeth ddiweddar penderfynwyd anfon yr holiadur bodlonrwydd Aelodau am y Tîm Gwasanaethau Democratiaeth allan yn fwy rheolaidd nag unwaith y flwyddyn. Bu i mi ei anfon i'r holl aelodau yn ystod ail hanner mis Hydref.

2. Gofynnwyd amrywiaeth o gwestiynau, gan gynnwys bodlonrwydd gyda gwaith y tîm ynghyd ag unrhyw ddatblygiadau y gallai'r tîm ei wneud i'r dyfodol.

3. Derbyniwyd 23 o ymatebion ac mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r prif negeseuon a amlygwyd gan yr aelodau.

4. O ran bodlonrwydd gyda'r gwasanaeth sy'n cael ei gynnig i aelodau, nododd 88% fod y gwasanaeth yn dda iawn neu'n dda, 1 Cynghorydd yn nodi ei fod yn dderbyniol, 1 Cynghorydd yn nodi fod y gwasanaeth yn wael ac un yn nodi gwael / gwael iawn.

5. Derbyniwyd nifer o sylwadau ychwanegol, a oedd yn cynnwys y detholiad byr isod:

" Papurau wastad ar amser, e-byst yn cael eu hateb yn brydlon. Rydych wedi ymdopi yn dda hefo'r newid i gyfarfodydd rhithiol"

" I have always found the support from the Democracy Service to be very good both in providing answers and providing information.."

" Mae 'r Gwasanaeth wedi cynorthwyo a chynghori mewn modd effeithiol iawn a hynod broffesiynol ar hyd y blynyddoedd . Rwyf yn werthfawrogol iawn. Diolch yn fawr."

6. Holwyd a oes unrhyw ddatblygiadau neu newidiadau y gall y tîm eu gwneud i gefnogi aelodau ymhellach yn eu rôl fel Cynghorwyr. Ymhlith y sylwadau nodwyd anfodlonrwydd gyda'r drefn Cabinet unwaith eto, ond rhaid pwysleisio mai dyma'r drefn statudol ac nad oes unrhyw gamau y gall y Tîm ei wneud i newid y drefn hon.

7. Bu i'r unigolyn a ymatebodd fod y gwasanaeth yn wael ddatgan ei anfodlonrwydd tuag at waith adran arall o fewn y Cyngor – mae'r sylwadau eisoes wedi eu hanfon ymlaen at yr adran berthnasol.

8. Amlygodd yr Aelod a nododd fod y gwasanaeth yn wael Iawn / gwael, ei r(h)wystredigaeth am argaeledd Swyddogion y Cyngor ynghyd a diffyg ymateb gan Swyddogion a rhai o Adrannau'r Cyngor I'w ymholiadau fel Cynghorydd. Mae'r Pennaeth Gwasanaeth Democratiaeth yn cydweithio gyda'r Prif Weithredwr a phenaethiaid adran ar draws y Cyngor er mwyn rhoi sylw i'r pryderon am y gallu i ymateb i ymholiadau yn amserol.

9. Cafwyd sgwrs pellach gyda'r unigolyn a nododd fod y gwasanaeth yn dderbyniol er mwyn deall ei sylwadau, ac yn sgil hynny rhoddwyd camau yn eu lle er mwyn lliniaru unrhyw broblemau i'r dyfodol.

10. O ran y sylwadau eraill, nodwyd cais gan ambell aelod am rifau ffôn i gysylltu yn uniongyrchol â swyddogion y Cyngor. Pwysleisir unwaith eto fod rhestr o gysylltiadau defnyddiol ar gael ar y Mewnrwyd Aelodau ac yn cael ei ddiweddaru'n gyson gan yr Adrannau.

11. Nododd un aelod ddymuniad i gael ail gychwyn cyfarfodydd yn y siambr ac mae adroddiad ar y mater hwn ar yr agenda heddiw.

<u>CAMAU NESAF</u>

12. Rydym eisoes wedi datgan ein bod yn awyddus i wella ein gwasanaeth ac ateb gofynion Cynghorwyr. Yn ogystal a'r holiadur ddwy waith y flwyddyn, rydym yn bwriadu datblygu gofod ar fewnrwyd yr aelodau lle y gall unrhyw un gyflwyno sylwadau ar unrhyw adeg. Yn ychwanegol, credwn fod siarad ag unigolion yn dod a mwy o wybodaeth i ni, ac felly ein bwriad yw ceisio cael sgwrs gyda 2 neu 3 Cynghorydd bob mis er mwyn trafod y gefnogaeth sy'n cael ei gynnig i chi.

**13. PENDERFYNIAD A GEISIR**

**Gofynnir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth nodi'r sylwadau a derbyn yr adroddiad.**